# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2018

Amser: 09.30 - 12.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4611

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Matthew Coe, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Claire McDonald, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio - Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 12 Rhagfyr 2017**

**2.2 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 – 14 Rhagfyr 2017**

**2.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – 13 Rhagfyr 2017**

**2.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – 15 Rhagfyr 2017**

**2.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) – 21 Rhagfyr 2017**

**2.6 Y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Nodyn technegol**

## 3 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 1 (Swyddfa Archwilio Cymru)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mike Usher, Cyfarwyddwr ac Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog; Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol; a Matthew Coe, Rheolwr Archwilio, ynghylch y paratoadau ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru.

## 4 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 2 (Llywodraeth Cymru)

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Claire McDonald, Rheolwr Rhaglen Weithredu, Awdurdod Cyllid Cymru, ynghylch y paratoadau ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru.

4.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu dadansoddiad o weithlu Awdurdod Cyllid Cymru o ran niferoedd, mathau o gontractau ac amrywiaeth.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6.2 Nododd y Pwyllgor fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwrthod ei wahoddiad i ddarparu tystiolaeth lafar ynghylch trydydd adroddiad blynyddol Llywodraeth y DU ynghylch rhoi ar waith a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014.

## 7 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: Offerynnau Statudol ym maes treth

7.1 Trafododd y Pwyllgor Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 a chytunodd i gyflwyno adroddiad arnynt.

## 8 Gohebiaeth gan Gomisiwn y Cynulliad

8.1 Nododd y Pwyllgor gais cyllideb atodol Comisiwn y Cynulliad a'r tanwariant rhagamcanol mewn perthynas ag arian a dynnwyd i ariannu penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

## 9 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18

9.1 Nododd y Pwyllgor gais cyllideb atodol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 10 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Adolygiad o broses newydd y gyllideb

10.1 Adolygodd y Pwyllgor y broses newydd ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft.

## 11 Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth: Ymateb Llywodraeth Cymru

11.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 12 Y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

12.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.